

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhalwyd drwy Zoom  
**nos Lun, 13 o Fedi 2021** am **7:40yh** (a gynhaliwyd am 8:00y.h)

**YN** Cynghorwyr Heather Williams (Cadeirydd), Ken Hawkins, Ian Lewney, Ifan Wyn,  
**BRESENNOL:** Robert Owen Ellis, Ethan Jones and Menna Jones

***Ymunodd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu â'r Pwyllgor Amwynderau i drafod yr eitem nesaf.***

#### **140. CAE DDOL – GWAITH ARFAETHEDIG AR YR ARGLOWDD**

Cafodd y Pwyllgor Amwynderau a'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu drafodaeth ar y cyd am waith arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr arglawdd yng Nghae Ddol. Darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o frasluniau o'r gwaith arfaethedig ac fe'u dosbarthwyd cyn y cyfarfod. Amlinellodd y Cyng Heather Williams mai'r cynnig oedd i wneud y bwnd yn uwch ac yn lletach. Er bod yr aelodau'n cydnabod y manylion yn y brasluniau a gafwyd, ni chyflwynwyd effaith weledol y gwaith arfaethedig. Holodd yr aelodau hefyd am y gwaith draenio a ffensio. Wrth gydnabod yr angen i ddatrys y broblem, gofynnodd yr Aelodau am gyfarfod brys gyda swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod manylion y cynllun.

***PENDERFYNWYD:*** trefnu cyfarfod rhwng Cyngor Tref Rhuthun a swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried manylion y gwaith arfaethedig ar yr arglawdd yng Nghae Ddol.

#### **141. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

#### **142. DATGAN BUDDIANNAU**

Dim.

#### **143. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

***PENDERFYNWYD:*** bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 5 o Orffennaf 2021 yn gofnod cywir.

#### **144. MATERION YN CODI**

Nid oedd materion yn codi

#### **145. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Roedd Clerc y Draf wedi dosbarthu penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych gyda'r agenda.

#### **146. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer sylwadau.

***PENDERFYNWYD:*** nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau a ganlyn:

#### **02/2021/0838– Wern Veterinary Surgery, Wern Fechan, Ruthin**

Arddangos arwyddion mewn perthynas a optometryddion

*Dim gwrthwynebiad.*

#### **02/2021/0837 - Wern Veterinary Surgery, Wern Fechan, Ruthin**

Newidiadau allanol i ffryntiau siopau, gan gynnwys ffenestri, drysau ac arwyddion diwygiedig

*Dim gwrthwynebiad.*

**02/2020/0621 - Bryn Ffynnon , Llanfwrog, Ruthin**

Amrywio amod 2 y Cais Adeilad Rhestredig 02/2019/0194/LB i ganiatáu cymeradwyo manylion ffenestri a gorffeniadau allanol a chael gwared ar amod 3 mewn perthynas â manylion ffenestri.

*Dim gwrthwynebiad.*

**02/2020/0563 - Bryn Ffynnon , Llanfwrog, Ruthin**

Amrywio amod 2 y caniatad cynllunio 02/2019/0193/PF i ganiatáu manylion ffenestri diwygiedig a gorffeniadau allanol.

*Dim gwrthwynebiad.*

**02/2021/0888 - Wynnstay B & B Well Street, Ruthin**

Gosod 4 ffenestr newydd ac 1 drws newydd (Cais Adeilad Rhestredig).

*Dim gwrthwynebiad.*

**02/2021/0911 - The Nook, Bryn Goodman, Ruthin**

Dymchwel annedd bresennol a chodi 2 annedd ar wahân gyda gwell mynediad cysylltiedig, dreif breifat a mynediad cefn.

*Dim gwrthwynebiad.*

**02/2021/0913 - 71 Erw Goch, Ruthin**

Dymchwel garej/cegin unllawr i ochr yr annedd a chodi estyniad deulawr newydd i ochr yr annedd a gwaith cysylltiedig.

*Dim gwrthwynebiad.*

**02/2021/0894 – Mynsvale, Denbigh Road, Ruthin**

Codi estyniad cefn unllawr gyda theras uwchben ac estyniad llawr cyntaf.

*Dim gwrthwynebiad.*

**02/2021/0876 - 1 Cae Castan, Rhuthun**

Torri coeden castanwydden y meirch yn ddarostyngedig i orchymyn cadw coed

*Dim gwrthwynebiad – ond y dylid cynnwys amod ar blannu coeden newydd o'r un rhywogaeth.*

**147. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** mai nos Lun, 4 o Hydref am 7.45pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.